# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Cynghorydd R.Meirion Jones, Bryan Owen a P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnodau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf, 2017.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf hon ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Derbyniwyd 3 o geisiadau am y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD rhoi'r 3 ymgeisydd drwodd i gam nesaf y broses benodi.**

**Pennaeth Dysgu**

Rhoes y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol adroddiad llafar ar y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad llafar ar lenwi swydd y Pennaeth Dysgu yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**